Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 27 MAWRTH 2019, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Aelodau â phleidlais:	Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Dr Hazel Davey; Mr Tim Davies; Dr Gwion Evans; Mr Nigel Hardy; Dr Sarah Higgins; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; Dr Cerys Jones, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Ffion Jones, Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova; Yr Athro Eleri Pryse; Dr Simon Rodway; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Victoria Wright; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.
Aelodau heb bleidlais:	Yr Athro Simon Cox; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; a Dr Anoush Simon (tan gofnod 34).
Yn gweinyddu:	Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor (o gofnod 33); Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd; Dr Stephen Atherton; Mrs Kim Braddick, Dirprwy Gofrestrydd, (Sicrhau a Gwella Ansawdd); Mr Robin Halley, Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr (tan gofnod 34); Mr Andy Shenstone, AdvanceHE.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Neil Glasser; Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Yr Athro Richard Beardsworth; Ms Megan Hatfield, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Yr Athro Malcolm Thomas; a Ms Louise Jagger.

26. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

1. Dr Stephen Atherton, a oedd yn bresennol ar gais Pennaeth yr Ysgol Addysg i gynrychioli'r adran;

2. Ms Kim Braddick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd), sef Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd a fyddai'n sylwedydd yn y cyfarfod.

3. Dr Sarah Davies, Pennaeth interim yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear;

4. Dr Cerys Jones, Cadeirydd newydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC);

5. Dr Ffion Jones, cynrychiolydd a etholwyd o'r adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu;

6. Yr Athro Eleri Pryse, aelod a etholwyd o'r adran Ffiseg; a

7. Andy Shenstone o AdvanceHE, a oedd yn arsylwi yn rhan o arolwg allanol o effeithiolrwydd y llywodraethu yn y Brifysgol, a gomisiynwyd gan y Cyngor.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Emeritws David J Batten, gynt o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear;

2. Adam Dewulf-Peters, myfyriwr yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol;

3. Dr Geoffrey Evans, cyn-ddarlithydd yn yr Adran Addysg; a

4. William Wolfgang Dieneman, cyn-Lyfrgellydd yn y Brifysgol.

3. Arolwg o Effeithiolrwydd Llywodraethu

Bob pedair blynedd, mae'n rhaid i'r Brifysgol gynnal arolwg o effeithiolrwydd llywodraethu, a disgwylir i'r arolwg nesaf gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyfredol. Cyflogwyd AdvanceHE i gynnal yr arolwg hwn ar ran y Brifysgol, a gwahoddwyd aelodau'r Senedd i drafodaeth grŵp gyda chynrychiolydd o AdvanceHE ar 12 Ebrill 2019. Anogwyd holl aelodau'r Senedd i gymryd rhan yn y broses.

27. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

28. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2018 (SEN1819-038).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

29. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1819-039).

NODWYD

1. Strategaeth Ymchwil (cofnod 71, cyfarfod dyddiedig 14 Mehefin 2017)

Roedd trefn ymgynghori ar ddrafft y Strategaeth bellach mewn llaw gyda chynrychiolwyr y Cyfadrannau a grwpiau allweddol eraill. Byddai'r drafft yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni'r adborth a dderbynnir ac yna'i gyflwyno i'r Senedd ar 12 Mehefin 2019 i'w gymeradwyo.

2. Hyfforddiant Milfeddygol (cofnod 72, 14 Mehefin 2018)

Roedd trafodaethau â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol yn parhau, gyda'r bwriad o gwblhau'r drefn ddilysu yn ystod mis Mehefin 2019.

3. The Wheel (cofnod 9.2)

Yn dilyn trafodaethau pellach rhwng y Brifysgol a Chwmni Hyfforddi The Wheel, penderfynwyd peidio â symud ymlaen â'r berthynas arfaethedig.

4. Trosglwyddo marciau o sefydliadau eraill (cofnod 16)

Roedd rhai adrannau'n dal yn ansicr ynglŷn â'r dull o roi'r rheol ddiwygiedig ar waith, ac roeddent wedi gofyn am gyfarwyddyd pellach gan y Gofrestrfa Academaidd.

PENDERFYNWYD

Dosbarthu cyfres o enghreifftiau wedi'u cyfrifo er mwyn egluro sut y byddai'r drefn raeadru'n gweithio pe byddai credydau amrywiol ar goll (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Academaidd).

5. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

30. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-040).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle'r oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.

2. Y materion a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor trwy ohebiaeth oedd:

    1. Argymell y Datganiadau Sicrhau Ansawdd Blynyddol i'r Cyngor; a

    2. Penodi cynrychiolwyr o'r Cyfadrannau i gynghori ar ddatblygu Cod Ymarfer y FFRHY.

31. GOHEBIAETH

1. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Mae'n rhaid i'r holl staff gwblhau cyrsiau e-Ddysgu ynglŷn â'r Rheoliad a Diogelu Gwybodaeth. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio'n awyddus i weld cynifer â phosibl o'r rhai a gofrestrwyd ar y cyrsiau'n cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus cyn gynted â phosibl, a gofynnwyd i aelodau'r Senedd annog eu cydweithwyr i gyflawni'r cyrsiau e-ddysgu.

32. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1819-041).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cyrraedd yn ôl o China'r diwrnod blaenorol, lle'r oedd dirprwyaeth o'r Brifysgol wedi cyfarfod â phartner sefydliadau ac asiantau. Bu'r ymweliad yn un cadarnhaol, a osododd sail i gynyddu nifer y myfyrwyr i Aberystwyth o'r wlad honno.

3. Trafododd yr aelodau strategaeth y Brifysgol ar gyfer gwneud cynigion. Er nad oedd PA bellach yn rhoi cynigion amodol diamod, roedd sawl un o'r sefydliadau cystadleuol yn dal i wneud hynny er gwaetha'r sylw negyddol a gafodd cynigion o'r fath yn y cyfryngau'n ddiweddar. Roedd y Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr yn paratoi cyfarwyddiadau i adrannau ynglŷn â'r ymateb priodol i'w roi i ddarpar fyfyrwyr ar y mater.

33. STRATEGAETH MARCHNATA A DENU MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr, yn ymgorffori drafft y Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr (SEN1819-042).

NODWYD

1. Roedd Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn rhoi eglurder a chyfeiriad i weithgareddau'r Brifysgol yn y cyswllt hwn. Byddai'r Strategaeth ddrafft, a gynlluniwyd i ategu Cynllun Strategol 2018-2023 y Brifysgol, yn rhoi gwell diffiniad o'r hyn yw brand y Brifysgol ac yn amlinellu'r dull o ymdrin â denu myfyrwyr yn y dyfodol.

2. Trafododd yr aelodau gynnwys y drafft a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn fanwl - yn enwedig cyfraniad disgwyliedig yr adrannau academaidd i'r Strategaeth, a'r hyn a fyddai yn y dyfodol yn cael ei drefnu'n ganolog.

3. Croesawyd y cynigion i ddenu mwy o fyfyrwyr i gyrsiau uwchraddedig cyfredol y Brifysgol. Ond gofynnodd yr aelodau am sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd i wella'r prosesau derbyn cysylltiedig. Cadarnhawyd bod y Dirprwy Gofrestrydd (Derbyn Myfyrwyr) eisoes yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr ar y mater hwn.

4. Er bod gan y Brifysgol strategaeth 'Addewidion Aber' ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, cydnabuwyd y byddai'n ddefnyddiol i gynnwys targed yng nghyswllt denu myfyrwyr Cymraeg yn y strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr newydd.

PENDERFYNWYD

5. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft y Strategaeth Marchnata a Denu Myfyrwyr, yn amodol ar roi ystyriaeth i'r adborth a roddwyd gan y Senedd ar y drafft hwn yn rhan o'r gwaith o ddatblygu fersiwn derfynol i'w hystyried gan y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).

34. ARGYMHELLION O'R BWRDD ACADEMAIDD

1. <u>Strategaeth Cyflogadwyedd ddiwygiedig 2018-2023</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1819-044).

   NODWYD

   1. Ar 13 Mawrth 2019, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried y diwygiadau arfaethedig i Strategaeth Cyflogadwyedd y Brifysgol 2018-23 ac wedi cymeradwyo y dylai'r Senedd eu cymeradwyo. Cafodd y diwygiadau hyn eu datblygu gan Bwyllgor Profiad y Myfyrwyr.

   PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo Strategaeth Cyflogadwyedd ddiwygiedig 2018-2023 (**GWEITHREDU:** Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd).

2. Cynnig i ymestyn cyfnod arholiadau Semester Un

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1819-045).

NODWYD

1. Ar 13 Mawrth 2019, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried cynnig i ymestyn cyfnod arholiadau Semester Un i 11 diwrnod gwaith, trwy ychwanegu un diwrnod ar ddiwedd y cyfnod.

2. Câi'r diwrnod ychwanegol ei ddefnyddio'n bennaf i gynnal arholiadau cyfrifiadurol ar-lein, na ddylent gael effaith ar amser marcio academaidd, a chaniatáu i'r Swyddfa Amserlennu ddosbarthu'r arholiadau'n fwy hwylus. Hefyd byddai diwrnod ychwanegol yn cael gwared â'r angen i gynnal arholiadau ar ddydd Sadwrn.

3. Roedd data a ddarparwyd gan y Swyddfa Amserlennu o gyfnod yr arholiadau diweddaraf wedi cadarnhau na fu gan un o'r myfyrwyr ddau arholiad ar yr un dydd. Ysgafnhau'r pwysau ar fyfyrwyr yn ystod cyfnod yr arholiadau oedd un o amcanion clir Swyddog Materion Academaidd UMAber, a chroesawodd yr aelodau'r data fel cam sylweddol tuag at y nod hwn.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r cynnig i ymestyn cyfnod arholiadau Semester Un i 11 diwrnod gwaith (**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd).

3. Adolygydd Allanol Bwrdd Arholi'r Senedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1819-046).

NODWYD

1. Ar 21 Tachwedd 2018, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried cynnig y dylid cynnwys tri opsiwn yn y gweithdrefnau ynglŷn â'r camau y gellid eu cymryd pa na allai'r Adolygydd Allanol ddod i Fwrdd Arholi'r Senedd ar fyr rybudd. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd Academaidd y dylai'r Senedd gymeradwyo'r diwygiad arfaethedig, ac y dylid ei gynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

2. Croesawodd aelodau'r Senedd yr ychwanegiad arfaethedig, a chynnig y gellid defnyddio'r un gweithdrefnau ym myrddau arholi'r adrannau.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiad a gynigiwyd i'r Llawlyfr Sicrhau Ansawdd, a chymryd camau i ddefnyddio'r un gweithdrefnau ar gyfer byrddau arholi adrannol (**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd).

4. Rheoliadau DProf

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1819-047).

NODWYD

1. Roedd Rheoliadau cyfredol y Brifysgol am radd DProf yn mynnu y dylai ymgeiswyr fod yn gyflogedig yn allanol. Ond, yn achos MProf, roedd y Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr fod yn gyflogedig mewn gwaith perthnasol neu ymarfer proffesiynol perthnasol.

2. Ar 13 Mawrth 2019, ar argymhelliad y Pwyllgor Graddau Ymchwil, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried cynnig i gymhwyso'r geiriad MProf ar gyfer y rheoliadau DProf er mwyn bod yn gyson ac i ganiatáu hefyd i ymgeiswyr DProf fod wedi'u lleoli yn Aberystwyth. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd Academaidd y dylai'r Senedd gymeradwyo'r diwygiad hwn.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r mân ddiwygiad i'r Rheoliad ar gyfer DProf (**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd).

35. ADRODDIAD STATWS LLAIS Y MYFYRWYR: SEMESTER 1

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; a Rheolwr Prosiect 'Dy Lais ar Waith' (SEN1819-048).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad amlinelliad o ganlyniadau arolygon Semester 1 a gynhaliwyd yn rhan o gynllun llais y myfyrwyr, 'Dy Lais ar Waith'. Trafododd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl, ac yn arbennig felly'r agwedd tuag at wahanol fathau o fodiwlau, a'r graddfeydd ymateb i fodiwlau llai.

2. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) wedi cyfarfod ag adrannau academaidd yn ystod mis Chwefror 2018 i ddatblygu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd yn Semester 1. Roedd y cynlluniau gweithredu hyn nawr yn cael eu rhoi ar waith.

3. Dim ond ar gyfer israddedigion y mae'r cynllun 'Dy Lais ar Waith'. O ystyried awydd y Brifysgol i gynyddu niferoedd uwchraddedigion, anogodd yr aelodau y dylid cynnwys uwchraddedigion yn yr ymgyrchoedd yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

36. CYFRADD YMATEB YR ACF

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) (SEN1819-049).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn rhoi graddfa ymateb ddiweddaraf ACF y Brifysgol, a manylion graddfeydd ymateb unigol ar gyfer adrannau academaidd a chyrsiau.

37. AROLWG O IS-BWYLLGORAU ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd (SEN1819-050).

NODWYD

1. Wrth gymeradwyo fframwaith diwygiedig yr is-bwyllgorau academaidd ar 10 Hydref 2018, gofynnodd y Senedd i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) i edrych sut yr oedd y drefn newydd yn gweithio ar ôl dau gylch a chyflwyno crynodeb o unrhyw argymhellion i'r Senedd yn y cyfarfod hwn.

2. Oherwydd yr amseru, dim ond un waith yr oedd rhai o'r is-bwyllgorau wedi cyfarfod. Gofynnwyd felly am adborth cychwynnol gan bob is-bwyllgor yn y lle cyntaf, ac roedd hynny wedi'i nodi yn adroddiad Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd. Gofynnir am ragor o adborth gan y prif randdeiliaid dros yr wythnosau nesaf.

3. Trafododd yr aelodau'r adroddiad. Cododd rhai ymholiadau yng nghyswllt swyddogaeth Penaethiaid Adrannau a'u cyswllt ag amrywiol bwyllgorau. Roedd yr ad-drefnu diweddar ar staff gweinyddu academaidd yn golygu hefyd fod peth ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chyfrifoldebau rhai aelodau staff o ran cynorthwyo pwyllgorau academaidd yr adrannau a'r cyfadrannau. Byddai hyn yn cael ei ddatrys wrth i gydweithwyr ymgynefino â'u swyddogaethau newydd.

PENDERFYNWYD

4. Y dylai'r Cofrestrydd Academaidd gyfarfod â chynrychiolwyr o bob Cyfadran i ystyried adborth am Bwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau. Wrth wneud hyn, dylid hefyd ystyried byrddau'r adrannau (**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd).

5. Y dylai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) gynnull grŵp bach i ystyried sut y mae'r pwyllgorau academaidd wedi gweithio yn ystod y sesiwn hon o dan y trefniadau newydd, a chyflwyno adroddiad i'r Senedd fel sy'n briodol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

38. ETHOLIADAU I'R SENEDD.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-051).

NODWYD

1. Byddai mwyafrif cynrychiolwyr etholedig y Senedd yn dod i ddiwedd eu cyfnodau cyfredol ar 31 Awst 2019, a bydd angen cynnal etholiadau i benodi neu ailbenodi unigolion am gyfnod newydd o dair blynedd o 01 Medi 2019.

2. Nodai'r adroddiad y gweithdrefnau i'w dilyn, ac amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr etholiadau.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo gweithdrefnau'r etholiad a'r amserlen a nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

39. PWYLLGOR MOESEG YMCHWIL Y BRIFYSGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN1819-052).

NODWYD

1. Ers 01 Awst 2018, bu Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn ateb yn uniongyrchol i'r Senedd (yn hytrach nag i'r Cyngor a'r Senedd ar y cyd fel y gwnâi'n flaenorol).

2. Yng ngoleuni'r llinellau adrodd newydd, mae'r Pwyllgor newydd wedi adolygu ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth i wneud yn sicr eu bod yn dal yn berthnasol. Mae diwygiadau felly'n cael eu cynnig, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Mae'r diwygiadau a gynigir yn ceisio ehangu ar y fersiwn flaenorol i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn glir a diamwys.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylch gorchwyl Pwyllgor Moeseg y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol; a Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil).

40. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad blynyddol ar gwynion ac apeliadau academaidd (SEN1819-053);

2. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN1819-054);

3. Grantiau Ymchwil (SEN1819-055);

4. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN1819-056); a

5. Dyddiadau cyfarfodydd y Senedd yn 2019/20 (SEN1819-057);

NODWYD

6. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

41. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1819-058):

1. Y Bwrdd Academaidd (21 Tachwedd 2018, ac 13 Mawrth 2019);

2. Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (05 Mawrth 2019);

3. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (05 Mawrth 2019);

4. Y Bwrdd Ymchwil (18 Chwefror 2019)

5. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (13 Mawrth 2019); a'r

6. Cyngor (27 Tachwedd 2018, ac 08 Chwefror 2019).

NODWYD

7. <u>Y Bwrdd Academaidd (13 Mawrth 2019)</u>

   Ar 20 Mehefin 2018, roedd aelodau'r Senedd wedi cymeradwyo cyflwyno copi cwrs gwag fesul cam. Roedd modiwlau Lefel 1 eisoes wedi eu trin dros yr haf 2018, a byddai'r copi cwrs gwag i fodiwlau Lefel 2 a 3 yn cael ei symud ymlaen yr haf hwn. Byddai modiwlau Lefel M yn cael sylw yn ystod 2020.

8. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

42. UNRHYW FATER ARALL

1. Cod Ymarfer y FfRhY

1. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gyflwyno'i Chod Ymarfer FFRHY i *Research England* erbyn 07 Mehefin 2019. Roedd y Senedd eisoes wedi penodi tri chynrychiolydd - un o bob Cyfadran - i gynghori ar ddatblygiad y Cod Ymarfer cyn iddo gael ei ystyried gan y Senedd.

2. Gan na fyddai'r Senedd yn cyfarfod nesaf tan 12 Mehefin, cynigiwyd cynnal Cyfarfod Arbennig byr o'r corff llywodraethu academaidd er mwyn ystyried a rhoi cymeradwyaeth i'r Cod Ymarfer.

PENDERFYNWYD

3. Cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Senedd am 14.00 ar 20 Mai 2019, i ystyried Cod Ymarfer y FFRHY, er mwyn ei gyflwyno i *Research England* erbyn 07 Mehefin 2019 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).